**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Llywodraeth Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Llywodraeth y DU

16 Hydref 2025

Annwyl Rebecca a Jo,

**Sesiwn ar Ddyfodol Dur Cymru – 9 Hydref 2025**

Ddydd Iau 9 Hydref, cynhaliwyd cyfarfod ar ddyfodol dur Cymru, gan edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ers i'r ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot gau. Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom edrych ar brofiad y gweithwyr sydd wedi cael eu diswyddo a'r gymuned ehangach.

Yn ystod y cyfarfod hwn, clywsom gan gynrychiolwyr o Bwyllgor Aml-undeb Tata ym Mhort Talbot. Fe wnaethon ni wahodd y Pwyllgor Aml-undeb i roi tystiolaeth oherwydd, er ein bod ni'n awyddus i glywed gan Tata a chan uwch gynrychiolwyr undebau, roeddem hefyd am ddeall beth oedd yn digwydd a beth oedd pobl yn ei deimlo ar lefel sy'n fwy ' ar lawr gwlad'.

Gwnaeth cynrychiolwyr y Pwyllgor Aml-undeb roi dystiolaeth a mewnwelediad pwysig a phwerus ynghylch effaith y newid hwn, ac anghenion gweithwyr a chymunedau yr effeithir arnynt. Rwy'n eich annog i ddarllen y trawsgrifiad o'r sesiwn gyda'r panel hwn, sydd ar gael ar wefan y Senedd.

Roedd y Pwyllgor yn hynod siomedig o glywed nad yw cynrychiolwyr undebau lleol wedi cael eu cynnwys ar y Bwrdd Pontio. Credwn y byddai eu harbenigedd a'u persbectif lleol yn amhrisiadwy, ac mae peidio â'u cynnwys yn tanseilio gallu'r Bwrdd i sicrhau cefnogaeth i'w waith ymysg cymunedau lleol a darparu cefnogaeth ystyrlon.

Byddem yn pwyso arnoch yn gryf i wahodd cynrychiolydd o'r Pwyllgor Aml-undeb i ymuno â chyfarfodydd y Bwrdd Pontio yn y dyfodol ac ymgysylltu'n llawn yn ei waith yn y dyfodol. Byddai'n dda pe gallech ddweud wrthym a ydych chi'n bwriadu gwneud hyn, ac os penderfynwch beidio ag estyn gwahoddiad o'r fath, gofynnwn i chi ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi eich rhesymau dros hynny.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg